



Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru – Cam 3 – Cymorth Newydd

Cyllid newydd i ddarparu cymorth goroesi ac adfer ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19.

Mae elusennau a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn wynebu heriau cyfredol a newydd wrth iddynt fynd i'r afael ag effeithiau parhaus pandemig COVID-19.

Rydyn ni eisoes wedi gweld ymateb anhygoel gan fudiadau gwirfoddol ledled Cymru, sydd wedi addasu er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau'n parhau i fod ar gael i'r rheini mewn angen. Wrth i gynlluniau amrywiol, fel y ffyrlo, ddod i ben, rydyn ni'n sylweddoli y bydd mudiadau'n dibynnu ar gyllid grant hanfodol a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu yn ystod yr adeg ansicr hon.

Mewn ymateb i hyn, bydd cymorth ariannol uniongyrchol ar gael i fudiadau er mwyn sicrhau bod y sector gwirfoddol yn parhau i fod yn gryf ac yn barod at y dyfodol. Bydd ceisiadau yn cael eu croesawu gan unrhyw fudiad cymwys, waeth a ydynt wedi derbyn unrhyw grantiau blaenorol neu beidio.

Gwnaeth y pandemig amlygu nifer o broblemau sy'n wynebu mudiadau gwirfoddol, ac un o'r rhai pennaf yw cynaliadwyedd ariannol. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu hefyd i fudiadau sy'n edrych tuag at eu dyfodol, er

enghraifft, i arallgyfeirio eu ffrydiau incwm neu fuddsoddi yn y mudiad er mwyn caniatáu twf ac ehangiad.

BETH MAE'R GRONFA YN EI CHYNNWYS?

Mae'r gronfa yn rhan o'r £2.4 miliwn o gymorth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd ar gael i fudiadau gwirfoddol corfforedig tuag at y costau o oroesi pandemig COVID-19 a/neu fuddsoddi mewn gweithgarwch newydd neu ychwanegol a fydd yn cynhyrchu elw y tu hwnt i'r cyfnod cyllido.

Gall mudiadau wneud cais am grant hyd at £50,000. Os bydd angen cyllid ar y gweithgarwch y tu hwnt i hynny, mae cyfle i wneud cais i dîm [Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru](#) CGGC am fenthyciad os oes angen.

Mae'r gronfa wedi'i rhannu'n ddau faes: Goroesi a Ffynnu.

GOROESI

Mae hwn yn parhau i fod yn debyg iawn i gam cyntaf ac ail gam Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru (TSRF), gan gydnabod na wnaeth COVID-19 effeithio ar rai mudiadau neu ddod yn gwbl amlwg iddynt tan yn ddiweddarach. Mae'r maes hwn wedi'i gynllunio i wneud iawn am unrhyw ostyngiad digyffelyb yn eich incwm codi arian a rhoddion.

Gan fod cyllid Goroesi yn ddyblygiad o'r ddau gam blaenorol, rydyn ni'n disgwyl i unrhyw ymgeisydd sydd wedi cael cyllid Goroesi o'r blaen allu dangos bod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau sydd wedi arwain at gais am yr un math o gyllid.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheini nad ydynt wedi'u cefnogi gan TSRF neu TSRF2 o'r blaen. Yn yr un modd, bydd mudiadau sy'n cefnogi pobl a chymunedau â nodweddion gwarchoddedig hefyd yn cael eu blaenoriaethu.

Os yw eich sefyllfa ariannol wedi codi'n bennaf am eich bod wedi colli incwm masnachu, disgwylir eich bod wedi edrych ar eich cymhwysedd ar

gyfer y cymorth grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac wedi ystyried a fyddai'n fwy priodol na'r cyllid hwn. Gallai fod cyllid penodol i'r sector hefyd ar gael i chi, e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru ac ati. Fodd bynnag, os oes rheswm pam na allwch chi gael gafael ar y cymorth hwn fel mudiad gwirfoddol, mae'n bosibl y byddwn ni'n gallu eich cynorthwyo o hyd.

Nid yw'n ymwneud â chael incwm a gollwyd yn ôl – mae'n ymwneud â chynnig digon o arian i dalu am wariant hanfodol nad yw'n cael ei dalu amdano gan unrhyw incwm gweddilliol neu drwy ymyriadau cefnogol eraill. 'Y cyllid dewis olaf'.

FFYNNU

Bydd y maes hwn yn cynorthwyo mudiadau i fuddsoddi mewn gweithgareddau newydd neu ychwanegol a fydd yn arallgyfeirio ffrydiau incwm, gan gynhyrchu elw y tu hwnt i'r cyfnod cyllido. Bydd y gofynion yn debyg iawn i'r maes Goroesi, ond yn cael eu hategu gan gynllun a rhagolwg llif arian ar gyfer y gweithgaredd newydd y mae angen y cyllid ar ei gyfer yn benodol.

Gallai'r enghreifftiau gynnwys: -

- Ehangu gwasanaethau i mewn i ardal ddaearyddol newydd
- Gweithgareddau newydd sy'n cynhyrchu incwm
- Ffurio is-gorff masnachu er mwyn ehangu'r ddarpariaeth

EGWYDDORION Y GRONFA

- Mae hon yn gronfa gymorth dros Gymru gyfan i'r rheini sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19 ac mae wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer y sector gwirfoddol, er mwyn ategu'r cynlluniau amrywiol eraill sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yma a ledled y DU
- Mae'r cyllid ar gyfer gweithgarwch a fydd yn gadael etifeddiaeth barhaol o fewn y mudiad, ac nid yw yno i gefnogi cyfnod o ddarpariaeth yn unig. Er na fydd o reidrwydd yn cyflwyno canlyniadau ar unwaith, dylai alluogi mudiad i gynyddu ei incwm

dros amser a dod yn fwy gwydn ar gyfer y dyfodol. Dylai ymgeiswyr ei ystyried fel buddsoddiad yn eu busnes, a ddylai felly gynhyrchu elw parhaus

- Ni fwriedir iddo ddyblygu darpariaeth a gynigir yn rhywle arall, a bydd angen i ymgeiswyr gadarnhau nad oes 'cyllido dwbl' yn digwydd
- Ni fydd mudiadau sy'n dangos bod eu hincwm wedi gostwng yn sylweddol yn cael eu trin yn wahanol i fudiadau sydd wedi gweithredu yn ystod y pandemig.
- Rydyn ni'n disgwyl y bydd y galw am gyllid yn fwy na'r swm sydd ar gael, felly ni fyddwn yn gweithio ar sail 'y cyntaf i'r felin'. Bydd y cyllid yn cynorthwyo'r mudiadau hynny sydd mwyaf mewn angen a'r rheini sy'n creu'r effaith fwyaf. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheini sy'n gweithio gyda phobl neu gymunedau â nodweddion gwarchoddedig (oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, hil, rhyw, crefydd/cred).
- I'r mudiadau hynny nad ydynt â'r gallu neu sydd angen help i ymgeisio, bydd pecyn cymorth ar gael

MANYLION Y CYNLLUN

- Yr arian i gael ei wario dros gyfnod o 12 mis ar y mwyaf yn ôl anghenion yr ymgeisydd, fel yr amlinellwyd yn eich cais. Byddwn ni'n derbyn cynigion sy'n cynnwys cymorth sy'n lleihau'n raddol dros gyfnod hirach, gan ddefnyddio'r rhagdybiaeth y bydd lefelau incwm yn adfer yn raddol yn hytrach na thros nos
- Mae cyllid ar gael rhwng £10,000 a £50,000 i bob sefydliad (neu grŵp pan fydd is-gorff)
- Bydd 75% o'r arian grant yn cael ei dalu ymlaen llaw, a'r 25% sydd ar ôl yn cael ei dalu ar ôl tri mis, ar ôl cyflwyno'r wybodaeth fonitro berthnasol
- Gellir gwneud cais am fenthyciadau ychwanegol fel rhan o'r pecyn
- Bydd pecynnau'n cael eu cynnig i gynorthwyo pobl i ddatblygu'r cynnig busnes a/neu wneud y cais, fel llunio cynnig, llywodraethu, diogelu, strwythur cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau, cryfhau

arferion da, cynlluniau codi arian, materion ariannol a chynlluniau busnes

- Croesawir ceisiadau gan gyrff anghorfforedig, cyhyd â bod datblygu i fod yn gorfforedig yn rhan gynnar o'u cynlluniau

MONITRO

- Bydd gofyn i fuddiolwyr gwblhau arolwg tri mis ar ôl derbyn y taliad cyntaf, yn nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol yn eu gwariant a/neu unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd. Bydd angen cwblhau hwn cyn i'r ail daliad gael ei ryddhau.
- 12 mis ar ôl derbyn y cyllid, bydd angen i fuddiolwyr gwblhau arolwg tebyg a darparu rhagolwg ariannol wedi'i ddiweddarau.
- Bydd pob prosiect yn cael ei ddilyn i fyny er mwyn asesu'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion cytunedig.

EFFAITH GYMDEITHASOL

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus lynu at Ymrwymiad Cymunedol Cymdeithasol. Bydd hwn yn gyfuniad o ymrwymiad i gyflawni amrediad o ddangosyddion cytunedig sy'n ymwneud â swyddi, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau/buddiolwyr ac ymrwymiad i gyflawni amrediad o ganlyniadau a bennir gennych chi ac sy'n berthnasol i'ch mudiad sy'n gysylltiedig â [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

CYDYMFFURFIO AG ANSAWDD

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau gweithio tuag at, gyflawni neu gadw achrediad cydnabyddedig fel y canlynol (ymhlith rhai eraill):

- Marc Elusen Ddibynadwy – Lefel 1
- Marc Elusen Ddibynadwy – Lefel 2
- Cyflogwr Cyflog Byw Achrededig
- Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
- Cymhwyster y Sefydliad Codi Arian ar gyfer staff
- Y Ddraig Werdd

- Cadw at Safonau'r Gymraeg
- Cwblhad yr Academi Mentrau Cymdeithasol gan staff
- Buddsoddwyr mewn pobl
- Cyflogwr Chwarae Teg – Chwarae Teg
- Achrediad Gweithiwr Ieuencid
- Llythrennedd Carbon
- Nabod Natur (Eco-llythrennedd)

Mae nifer yr achrediadau y byddem yn disgwyl i ymgeiswyr eu hennill yn dibynnu ar y maes a ddewiswyd a swm y cyllid y gofynnwyd amdano.

Y BROSES YMGEISIO

- Ar-lein drwy MAP (Porth Cais Amlbwrpas) CGGC
- Proses dwy ran:
 - Holiadur Cymhwysedd sy'n caniatáu i fudiad fynegi diddordeb yn y gronfa gan gynnwys data sylfaenol ar y mudiad a gwybodaeth gychwynol am y cynnig. Bydd pecynnau cymorth ar gael i lunio cais llawn, yn unol â manylion y cynllun uchod.
 - Cais llawn yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am y cynnig a'r effaith y bydd yn ei chael ar y mudiad, ei ddefnyddwyr gwasanaethau a'r amgylchedd.

Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn ar unrhyw adeg a bydd o leiaf tri phanel yn cael eu cynnal yn ystod oes y gronfa. Y ceisiadau â'r sgoriau uchaf fydd y rheini sy'n gallu dangos yr angen mwyaf a/neu greu'r effaith fwyaf.

Bydd cwestiynau'r cais yn cynnwys: -

- Llywodraethu – strwythurau a sgiliau bwrdd priodol
- Capasiti'r mudiad – polisiau a gweithdrefnau
- Cynaliadwyedd ariannol
- Effaith (etifeddiaeth) y mudiad
- Effaith gymdeithasol (gan gynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

- Cydymffurfio ag ansawdd (achrediadau)

Dyma'r wybodaeth ategol fydd ei hangen: -

- Dogfen lywodraethu
- Cyfriflen banc ddiweddar
- Y cyfrifon rheoli diweddaraf neu grynodeb o incwm/gwariant (mae'n bosibl y gallwn ni dderbyn cyfriflenni banc y chwe mis diwethaf gan fudiadau llai o faint)
- Cyfrifon llawn diwethaf
- Rhagolwg llif arian
- Polisi caffael / gweithdrefnau ariannol / polisi recriwtio

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, yn dibynnu ar eich cais.

SGORIO A DYRANNU CYLLID

- Bydd angen mynegi diddordeb i ddechrau, gan amlinellu eich cynlluniau, eu heffaith a swm y cyllid sydd ei angen
- Bydd pob adran yn cael ei sgorio, gyda gofyniad sgôr leiaf. Bydd tri phanel yn cael eu cynnal i ddyrannu'r cyllid, gyda cheisiadau sy'n sgorio llai na'r trothwy cyllido'n cael eu cario drosodd i'r panel nesaf
- Bydd yr effaith yn cael ei hystyried o ran yr effaith ar y mudiad (mwy cynaliadwy; etifeddiaeth) a'r effaith ar y gymuned ehangach/defnyddwyr gwasanaethau (mesurau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheini nad ydynt wedi cael cymorth gan TSRF neu TSRF2 o'r blaen. Yn yr un modd, bydd mudiadau sy'n cefnogi pobl a chymunedau â nodweddion gwarchoddedig hefyd yn cael eu blaenoriaethu
- Croesawir ceisiadau gan fudiadau sydd wedi gwneud cais mewn camau blaenorol o hyd, ond bydd angen dangos eu hangen am fwy o gyllid yn glir

YMHOLIADAU

Os oes gennych chi gwestiynau, anfonwch e-bost at sic@wcva.cymru yn gyntaf yn hytrach na ffonio CGGC – rydyn ni'n rhagweld y bydd galw uchel am y cyllid a bydd hyn yn ein galluogi i ymdrin ag ymholiadau yn y modd mwyaf effeithlon.